Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

Gofynwch am:
Ffôn:
E-Bost:
Ein Cyf:
Eich Cyf:
Dyddiad: 5 Ionawr 2021

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Fel y gwyddoch eisoes, roedd dull Abertawe o ddychwelyd i ysgolion ym mis Ionawr wedi'i ddiwygio, gyda ni yn gohirio dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb tan 11 Ionawr ar y cynharaf. Neithiwr cytunodd Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â CLILC a Cholegau Cymru, y dylai pob ysgol, coleg ac ysgol annibynnol symud i ddysgu ar-lein tan Ionawr 18.

Nid yw'r sefyllfa o ran gofal plant wedi newid ar hyn o bryd a bydd ysgolion yn ceisio darparu gwasanaeth i'n plant mwyaf bregus a'r gweithwyr allweddol hynny nad oes ganddynt ddewis arall ar gael iddynt o 6 Ionawr ymlaen. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio'r ddarpariaeth hon a lle bynnag y bo'n bosibl dylai disgyblion aros adref.

Bydd pob ysgol yn darparu dysgu o bell o ddydd Mercher 6 Ionawr. Gellir cyflwyno dysgu o bell mewn sawl ffordd a defnyddir nifer o wahanol ddulliau o fewn ac ar draws ein hysgolion. Bydd y dulliau hyn yn cynnwys gwersi "byw", gwersi wedi'u recordio, pecynnau gwaith ac ati.

Darperir taliadau ychwanegol neu barseli bwyd ar gyfer dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod dysgu gartref.

Yn gywir

Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro

To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL